# Cennau
# Safleoedd Claddu

CARING FOR GOD'S ACRE



THE PRINCE OF WALES'S CHARITABLE FUND


# Cennau Safleoedd Claddu

## CYFLWYNIAD

Ydych chi erioed wedi stopio i edrych yn ofalus ar y patrymau byw cywrain a hardd sy'n addurno'r cerrig mewn safleoedd claddu? Organebau yw'r rhain o'r enw cennau. Mae'n hawdd dod o hyd iddynt ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ond maent yn amlwg iawn yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd bywyd gwyllt arall yn cymryd cam yn ôl. Er eu bod i'w gweld yn unrhyw le bron ar dir, rydym yn gwybod ers amser maith bod mynwentydd a safleoedd claddu eraill yn gartref pwysig i gennau o ganlyniad i'r amrywiaeth gyfoethog o swbstradau carreg iddynt dyfu arnynt.

Gellir eu canfod ar strwythurau pren hefyd, fel meinciau a phyrth mynwentydd, yn ogystal ag ar risgl a brigau hen goed. Mae mynwentydd a safleoedd claddu eraill yn darparu lle sefydlog a chysgodol i gennau ffynnu.

Mae amrywiaeth gyfoethog a goroesiad hirdymor llawer o gennau'n dibynnu ar sut mae safleoedd claddu'n cael eu rheoli. Efallai eich bod yn darllen hwn oherwydd eich bod yn gwybod bod gan eich mynwent neu eich safle claddu amrywiaeth wych o gennau, a rhai ohonynt yn anghyffredin. Bydd y daflen ffeithiau hon yn helpu i egluro hanes naturiol a diwylliannol rhyfeddol cennau ac yn edrych ar rai o'u defnyddiau modern. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol am y ffordd orau o edrych ar ôl yr organebau hynod brydferth yma sydd ddim yn cael hanner digon o sylw, a ble i ddod o hyd i gymorth pellach os oes angen.



### Gwefannau a Sefydliadau

- **Mae Gofalu am Erw Duw** yn gweithio'n genedlaethol i gefnogi grwpiau ac unigolion i ymchwilio i, gofalu am, a mwynhau safleoedd claddu a mynwentydd. Mae gan ein gwefan ddolenni i becynnau gweithredu y gellir eu lawrlwytho gan gynnwys 'Dysgu am Gennau' (www.caringforgodsacre.org. uk/) Mae gennym hefyd rai adnoddau gwych ar gyfer gweithgareddau i deuluoedd ac ysgolion, i gyd yn adran Adnoddau ein gwefan (www. caringforgodsacre.org. uk/resources/). Edrychwch ar yr adran 'Beth am Ymchwilio i Gennau' yn ein Pecyn Addysg sy'n cynnwys dolenni i gwricwla cenedlaethol Cymraeg a Saesneg.
- **Mae Cymdeithas Cennau Prydain** yn grŵp sy'n ymroddedig i astudio a gofalu am gadwraeth cennau mewn mynwentydd ac mae'n darparu cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau. Mae'n rhoi manylion cyswllt aelodau Cymdeithas Cennau Prydain sy'n barod i ateb ymholiadau a rhoi cyngor am unrhyw gymorth arbenigol sy'n ofynnol gan y rhai sy'n rheoli safleoedd claddu, yn enwedig mynwentydd. www. britishlichensociety.org.uk/

### Llyfrau

- **Churchyard Lichens.** Siart plygu'r Field Studies Council (OP88). Mae nifer o siartiau plygu eraill ar gael hefyd gan y Field Studies Council i helpu gydag adnabod cennau mewn amrywiaeth o gynefinoedd.
- **A Field Key to Common Churchyard Lichens.** Frank Dobson.
- **God's Acre: The Flowers and Animals of the Parish Churchyard.** Francesca Greenoak.
- **Lichen Habitat Management.** A.Fletcher, British Cymdeithas Cennau Prydain.
- **When Nature Moves In. A guide to managing wildlife in and around buildings.** D.J.Bullock and J. Fernyhough, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- **Lichens** by William Purvis.
- **Lichens, An Illustrated Guide to the British and Irish Species** by Frank S Dobson.
- **Lichens** by Oliver Gilbert (HarperCollins).

# Cennau Safleoedd Claddu

## DARGANFOD MWY AM GENNAU

Er gwaethaf eu hymddangosiad disylw, mae hanes naturiol cennau yn destun rhyfeddod. Nid yw cennau yn unigol fel organeb; maent wedi'u ffurfio o ddau neu fwy o organebau gwahanol sy'n cyd-fyw fel un, yn yr hyn a elwir yn berthynas symbiotig. Mae hyn yn golygu bod y ddau yn elwa o'r berthynas. Mae cennau yn ffyngau, a rhoddir enw rhywogaeth y cen i'r elfen ffyngaidd. Y math mwyaf cyffredin o ffyngau a geir yn y gymdeithas o gennau yw'r ffyngau cwpan.

Alga yw'r partner arall fel rheol gyda thua 90% o gennau yn bartneriaeth ffwng / alga. Ar gyfer y 10% sy'n weddill mae'r darlun ychydig yn gymhlethach! Weithiau, yn lle algâu, syanobacteriwm yw'r partner, micro-organeb sy'n gysylltiedig â bacteria ond sy'n gallu cwblhau ffotosynthesis (er nad ydynt yn algâu, cyfeirir atynt yn aml fel algâu gwyrddlas). Gall rhai cennau gynnwys ffwng gyda mwy nag un math o algâu neu gymysgedd o algâu a syanobacteria. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ffwng yn benodol iawn wrth ddewis partner algaidd, ond mae gan rai rhywogaethau o ffyngau y gallu i 'newid' rhwng yr elfen algaidd, ond mae hwn yn gyfarfyddiad prin yn y byd naturiol. Er y gall hyn roi ymddangosiad gwahanol i'r cen, dim ond un enw fydd ganddo o hyd - enw'r ffwng, ac wedyn cyfeirir ato fel gwahanol forffau o'r un rhywogaeth. Mae nifer anhygoel o wahanol rywogaethau o gennau yn y DU, rydym yn gwybod bellach am ymhell dros 2000 ac mae'r nifer hwn yn cynyddu o hyd.

Roedd yn 1868 cyn i'r berthynas hon gael ei chynnig i ddechrau gan fotanegydd o'r Swistir, Simon Schwendener. Ar y pryd roedd yn cael ei hystyried yn chwerthinllyd ac ni chafodd ei derbyn yn eang am ddegawdau. Eiriolwr cynnar arall dros y cysylltiad rhwng ffyngau ac algâu oedd yr awdur i blant, Beatrix Potter. Roedd ganddi gymaint o ddiddordeb mewn cennau nes iddi ysgrifennu papur gwyddonol gyda darluniau hyfryd amdanynt ar gyfer Cymdeithas Linnaean Llundain (cymdeithas i ddynion yn unig ar y pryd). Fodd bynnag, fel menyw, ni chymerwyd ei hymchwil o ddifrif ar y pryd.

**C Sut mae'r ffwng yn elwa?**

**A Bwyd!**

Er bod un o bob pum rhywogaeth o ffyngau'n bodoli fel cennau, ni all y ffyngau hyn oroesi ar eu pen eu hunain, gan eu bod yn ddibynnol ar gael cydrywogaeth a all gwblhau ffotosynthesis a chynhyrchu carbohydradau. Yn y rhan fwyaf o gennau, ystyrir bod y ffwng yn brif rywogaeth, gan ffurfio prif gorff (neu thalws) y cen.

**C Felly sut mae'r algâu yn elwa?**

**A Llety!**

Yn gyffredinol, mae algâu yn byw mewn llefydd llaith, sy'n agored i rewi, cael eu golchi i ffwrdd neu sychu. Yn y rhan fwyaf o gennau mae'r algâu'n byw y tu mewn i gorff y ffwng lle maent yn elwa o'r warchodaeth mae'r ffwng yn ei chynnig rhag cystadleuaeth, tymheredd eithafol a sychder - sy'n galluogi i'r algâu ehangu ei amrediad daearyddol yn aruthrol. Dim ond ychydig o enghreifftiau sydd lle mae'r alga yn gryfach ac yn aml gelwir y rhain yn 'gennau jeli'.

Er ei bod yn ymddangos mai'r ffwng sy'n elwa fwyaf o'r bartneriaeth, y berthynas gydfuddiannol sydd wedi galluogi i gennau fod mor llwyddiannus a gallu sefydlu yn rhai o'r amgylcheddau mwyaf eithafol ar y ddaear. Maent yn bodoli yn Anialwch y Sahara, ar gopa Everest ac ym Mhegwn y Gogledd. Darganfu Asiantaeth Ofod Ewrop y gall cennau oroesi heb warchodaeth yn y gofod hyd yn oed.

Ceir dadl hir heb ei datrys ynghylch a yw symbiosis cennau yn gydfuddiannaeth (pob organeb yn elwa) neu'n barasitiaeth (un organeb yn elwa tra bo'r llall yn cael ei rhwystro). Mae rhai o'r farn bod y ffwng yn 'ffermio' yr algâu ar gyfer ei garbohydradau, gan lesteirio ei botensial atgenhedlu; mae eraill yn honni ei fod yn gydfuddiannaeth, gan fod yr algâu yn gallu ehangu eu hamrediad daearyddol.

Mae cennau fel rheol yn tyfu ar amrywiaeth eang o arwynebau fel dail, canghennau, craig noeth a phridd. Maent yn gallu byw ar doeau asbestos hyd yn oed, a chaeadau biniau sbwriel rwber. Wrth dyfu ar arwynebau mwynau, mae rhai cennau'n torri'r swbstrad i lawr yn araf dros amser, a all arwain at ffurfio pridd (pedogenesis), gan newid yr amodau sylfaenol ar gyfer olyniaeth ecolegol.

Mae llawer yn enwog am beidio â bod angen cyflenwad rheolaidd o ddŵr, oherwydd pan maent yn wlyb maent yn cwblhau ffotosynthesis ac yn tyfu, ond pan maent yn sychu maent yn 'diffodd' ac yn mynd yn segur. Gallant aros yn y cyflwr hwn am amser sylweddol. Dyma un o'r rhesymau pam mae llawer yn tyfu'n eithriadol araf (llai na hanner milimetr y flwyddyn) a gallant fod yn hirhoedlog iawn, gan fod



*Cladonia floerkeana – Devil's Matchstick*

ganddynt y gallu i wrthsefyll amodau pan nad ydynt yn ffafriol. Gall gymryd cannoedd o flynyddoedd i rai cennau sefydlu a cheir rhai sydd ond yn tyfu ar gennau eraill sydd wedi sefydlu'n dda.



Nid oes gan gennau wreiddiau na meinwe fasgwlaidd i dderbyn neu gludo maethynnau o'r pridd. Mae'r rhan fwyaf o'u dŵr a'u maethynnau cemegol yn cael eu hamsugno ar draws corff y cen o'r amgylchedd o'i gwmpas. Nid oes gan gennau'r gallu i wahaniaethu rhwng yr angenrheidiau ar gyfer goroesi a chemegau gwenwynig a llygredd, sy'n eu gwneud yn ddangosyddion rhagorol o ansawdd yr amgylchedd.

Un ffordd y gall cennau atgenhedlu yw drwy ryddhau sborau ffwngaidd microsgopig o strwythurau siâp disg sy'n edrych yn debyg i dartenni jam bach, fflasgiau neu blorod. Pan fyddant yn glanio ar arwyneb, mae'r sborau ffwngaidd yn egino, ac os ydynt yn agos at bartner algaidd addas sy'n digwydd yn naturiol, mae'r ffwng yn ei amlyncu, ac mae cen newydd yn cael ei ffurfio. Mae cennau hefyd yn lledaenu'n llystyfol, drwy gynhyrchu powdr neu ddarnau mân sy'n torri i ffwrdd ac yn cael eu gwasgaru yn y gwynt a'r glaw neu'n cael eu symud gan anifeiliaid.

Yn ogystal â bod o ddiddordeb eu hunain, mae cennau hefyd yn cynnal anifeiliaid eraill. Maent yn gartref i lawer o widdon bach ac infertebrata eraill sydd, yn eu tro, yn cael eu bwyta gan bryfed ac adar. Rydym yn gwybod bod lindys rhai gwyfynod yn bwydo ar gennau. Gall y rhain fod yn guddliw da iawn ac maent yn cynnwys y gwyfynod troedwas, y cefnwyfyn cleisiog ac adain fachog y cen. Mae rhai adar yn defnyddio cennau fel deunydd nythu; mae'r titw cynffon hir yn creu cuddliw yn ei nyth gyda chennau wedi'u rhyngblethu â gwe pryf cop.

Mae cennau'n cael eu rhannu yn dri phrif grŵp ar sail eu dull o dyfu:

- **Mae cen llwynaidd** yn ganghennog iawn ac mae'n edrych fel llwyn bach. Gall fod yn unionsyth ac yn llwyni neu'n hongian ac yn debyg i wallt. Gall fod â changhennau crwn neu fflat, yn glymog yn ei gilydd yn aml. Mae fel arfer ynghlwm wrth arwyneb mewn un pwynt a gellir ei dynnu yn hawdd. Gall fod mewn amrywiaeth o liwiau ond yn aml mae'n wyrdd golau neu'n llwyd.
- Mae gan **gen deiliog** siâp mwy gwastad, yn debyg i ddail ac wedi'i gyfeirio at y swbstrad. Gall fod yn wastad iawn ac yn ddeiliog neu'n droellog ac yn llawn cribau a lympiau. Yn aml mae wedi'i gysylltu'n llac gan flew tebyg i wreiddiau ond gellir ei godi'n rhannol oddi ar y swbstrad gyda gewin. Mae eu lliwiau'n amrywio o wyrdd a brown golau i felyn a llwyd.
- Mae **ccen cramennog** yn ffurfio matiau crystiog sy'n glynu'n dynn wrth swbstrad. Dyma'r rhai a geir amlaf yn ffurfio brithwaith ar gerrig beddau. Ni ellir eu tynnu yn hawdd heb achosi niwed i'r arwyneb maent yn tyfu arno. Gallant fod yn llawer o liwiau llachar gan gynnwys gwyrdd, melyn, oren a choch, yn ogystal â llwyd mwy cynnil. Y rheswm dros y lliwiau llachar, yn enwedig y melyn, yw'r cemegyn sy'n gweithredu fel eli haul naturiol, gan amddiffyn y cen rhag golau uwchfioled a allai fod yn niweidiol.

Gall adnabod rhywogaethau o gennau fod yn eithaf anodd. Er y gellir adnabod rhai o'n cennau cyffredin yn y maes, mae angen microsgop i adnabod llawer o gennau eraill, yn enwedig cennau cramennog, neu gynnal profion cemegol ar sampl o'r cen. Gall lliw cennau newid yn dibynnu ar a ydynt yn wlyb neu'n sych, yn yr haul neu yn y cysgod, neu gan ddibynnu ar yr arwyneb maent yn tyfu arno. Gall cennau o wahanol liwiau dyfu gyda'i gilydd a ffurfio cymunedau cymhleth. Am y rheswm hwn, wrth adnabod cennau, mae'n bwysig nodi amrywiaeth o wahanol gymeriadau, nid yn unig y lliw ond hefyd ffurf y cen, y cynefin mae ynddo a'r hyn mae'n tyfu arno ac ati.

Ceir rhai canllawiau da i'ch helpu chi i adnabod cennau, gan gynnwys canllaw plygu ar gyfer 'Common


## Cennau Safleoedd Claddu

Churchyard Lichens' gan y Field Studies Council. Mae hwn yn grwpio'r cennau yn ôl ffurf tyfu a bydd yn eich helpu i adnabod mwy na 50 o'r cennau mwyaf cyffredin a geir mewn mynwentydd ym Mhrydain. Yn ogystal, mae 'A Field Guide to Common Churchyard Lichens' gan Frank Dobson yn allwedd hawdd ei ddefnyddio i'r cynefin hwn.


Dyma rai rhywogaethau i gadw llygad amdanynt….

- Mae'r cen seren oren, *Caloplaca flavescens*, yn ffurfio cylchoedd melyn / oren llachar lliwgar ar galchfaen. Mae'r ardal ganolog yn edrych fel palmant gwallgof ond ar goll weithiau, gan adael cylch allanol yn unig. Mae'n gyffredin iawn mewn safleoedd claddu a gall fod yn hen iawn
- Cen deiliog yw'r cen tarian werdd cyffredin, *Flavoparmelia caperata sydd* i'w weld yn aml ar goed, ond hefyd ar gerrig beddau. Mae ganddo labedau llydan sy'n lliw gwyrdd fel afal, gan droi'n llwydfelyn pan fyddant yn sych.

Er nad oes modd adnabod llawer o gennau o ffotograffau yn unig, gellir gwneud hynny gyda rhai o'r rhywogaethau mwy carismatig. Wrth dynnu lluniau gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi nodwedd yr arwynebau uchaf ac isaf lle bo hynny'n bosibl. Tynnwch luniau agos bob amser, a chanolbwyntio yn benodol ar fanylion y ffrwythau a'r craciau ar yr arwyneb. Gall tynnu lluniau gyda'ch ffôn i lawr lens llaw x10 fod yn rhyfeddol o lwyddiannus i gael y chwyddo ychwanegol sydd ei angen. Er na ellir gwarantu hynny bob amser, os ydych chi eisiau help i adnabod eich cennau o luniau, mae amrywiaeth o grwpiau cyfryngau cymdeithasol lleol a chenedlaethol cyfeillgar ar gael a fydd yn hapus i gynorthwyo, fel tudalennau Twitter neu Facebook Cymdeithas Cennau Prydain.



*Flavoparmelia caperata – Common Greenshield*



*Caloplaca flavescens*

Mae'r hyn rydych chi'n ei weld a ble rydych chi'n ei weld yn bwysig a byddem wrth ein bodd pe baech yn anfon cofnodion o gennau rydych chi wedi'u hadnabod. I wneud cofnod mae angen i chi ddweud wrthym:

Pwy ydych chi

Beth wnaethoch chi ddod o hyd iddo

Pryd a Ble welsoch chi ef.


Dyna'r cyfan sydd angen ei wneud ac mae nifer o ffyrdd o anfon y cofnodion hyn atom ni…

Gallwch ddefnyddio ein ffurflen 'iRecord', sydd ar gael drwy'r dudalen 'Rhannu Eich Cofnodion' ar ein gwefan www.caringforgodsacre.org.uk. Fodd bynnag, os nad ydych chi eisiau defnyddio'r ffurflen ar-lein ac os yw'n well gennych anfon rhestr o rywogaethau atom, mae hynny'n iawn hefyd. Postiwch neu e-bostiwch nhw at Gofalu am Erw Duw (wildlife@cfga.org.uk), gan gynnwys eich enw, a sut i gysylltu â chi (Pwy), y dyddiad y gwelsoch y rhywogaeth (Pryd) a'r lleoliad (Ble). Rhowch yr union fanylion os gwelwch yn dda; mae llawer o Eglwysi'r Santes Fair! Mae cod post neu gyfeirnod grid yn ddefnyddiol. Yn bwysicach na dim, dywedwch wrthym Beth rydych chi wedi'i weld.

# Cennau Safleoedd Claddu

## CENNAU DRWY'R OESOEDD

Mae mynwentydd a safleoedd claddu eraill yn hynod bwysig i gennau, yn enwedig ein mynwentydd hŷn. O blith y 2,000 o rywogaethau o gennau yn y DU, mae mwy na 700 wedi'u darganfod mewn safleoedd claddu. Mae bron i hanner y rhain yn brin a phur anaml, os o gwbl, maent i'w gweld mewn llefydd eraill. Y gwaith carreg yn y safleoedd hyn sydd â'r casgliad mwyaf sylweddol o gennau, er gall hen goed ac adeiladwaith pren, fel pyrth mynwentydd, fod yn gartref i lawer o rywogaethau diddorol hefyd.



Mae sawl rheswm pam mae mynwentydd a safleoedd claddu yn cynnwys amrywiaeth mor eang a sylweddol o gennau.

- Yn gyntaf, maent yn cynnwys llawer o hen waith carreg agored, mewn rhai achosion, y gwaith carreg hynaf yn y plwyf. Defnyddiwyd cerrig ar gyfer y waliau terfyn yn ogystal ag adeiladau'r eglwys neu'r capel ac mae'n hysbys bod rhai croesau pregethu carreg yn dyddio o'r canol oesoedd. Erbyn y 18fed ganrif roedd y cerrig beddau sydd bellach yn gyfarwydd yn dod yn eang ac yn aml roeddent wedi'u hysgythru.

Mae llawer o gerrig sy'n dyddio'n ôl i'r 1700au i'w gweld hyd heddiw, wedi'u gorchuddio â chen sy'n debygol o fod mor hen â'r cerrig beddau eu hunain.

- Yn ail, mae'r mathau o gerrig mewn un safle'n amrywio'n fawr. Er yn hanesyddol bod cerrig beddau a cherrig adeiladu'n debygol o ddod o ffynhonnell leol, yn y plwyfi cyfoethocach, efallai bod y cerrig (gan gynnwys tywodfaen, llechi, cerrig caeau, gwenithfaen, marmor a chalchfaen) wedi'u cludo o ardaloedd pellach i ffwrdd. Mae'r arfer hwn wedi dod yn fwy cyffredin yn ddiweddar o ganlyniad i wella trafnidiaeth a globaleiddio, ac mae ystod o wahanol fathau o gerrig i'w gweld mewn un ardal fechan yn aml. Mae gwahanol gennau'n ffafrio gwahanol fathau o gerrig, yn dibynnu ar eu gwead, eu gallu i ddal dŵr a'u cyfansoddiad cemegol (asidig neu galchaidd h.y. y pH). Mae cerrig calchaidd fel

calchfaen neu farmor wedi'i hogi (heb ei sgleinio) yn debygol o fod â chennau gwahanol i'r rhai ar gerrig mwy asidig fel tywodfaen neu lechi. Mae hyn yn arwain at amrywiaeth drawiadol o gennau mewn ardal fechan iawn.

- Yn olaf, mae lleoliad y cerrig a'r cerfio'n dylanwadu ar ddosbarthiad y cennau. Bydd y cennau ar gerrig cysgodol, er enghraifft, yn wahanol iawn i'r rhai sy'n agored i'r haul. Yn draddodiadol mae cerrig beddau'n wynebu tua"r dwyrain, ond mae presenoldeb cyrbiau, beddrodau cist, henebion, adeiladau a waliau yn golygu bod yr agweddau ar waith carreg a microgynefinoedd mewn safle claddu yn niferus ac amrywiol. Gall llythrennau ac addurniadau greu gwahanol amodau hefyd.

Mae'r lleoliad daearyddol yn dylanwadu ar y cennau sy'n bresennol mewn safle claddu. Bydd gan safle claddu yn yr ucheldir gennau gwahanol i rai yn yr iseldir, a gall y rhai ar yr arfordir neu'n agos ato fod â chennau morol a all ffynnu mewn chwistrell halen.

Mae cennau'n hynod sensitif i lygredd aer a chemegau. Yn gyffredinol, mae mynwentydd a safleoedd claddu'n cael eu rheoli'n draddodiadol yn aml heb ddefnyddio gwrteithiau na chwynladdwyr, arfer sy'n galluogi cennau i ffynnu. Er y gellir tybio mai mynwentydd trefol fydd y mwyaf llygredig, gan gynnwys niferoedd is o gen, gall ardaloedd gwledig fod â llygredd amaethyddol yn effeithio arnynt hefyd, fel chwistrell yn dianc wrth wrteithio, allyriadau nitrogen o ffermydd dofednod a chwistrell halen o ffyrdd. Yn hanesyddol, sylffwr deuocsid o ddiwydiant oedd prif ffynhonnell llygredd aer, yn toddi mewn dŵr yn aml i achosi glaw asid. Ar ôl y Chwyldro Diwydiannol, gwelwyd y cennau mewn llawer o ganol trefi diwydiannol yn dirywio'n ddifrifol. Y dyddiau hyn, mae'r safleoedd yma'n gwella o ganlyniad i'r Ddeddf Aer Glân, ond y pryder newydd yw lefelau cyfansoddion nitrogen cynyddol o amaethu dwys ac egsôsts cerbydau.

Efallai y bydd gan safle claddu sydd â chyfoeth o gennau ymhell dros 100 o wahanol rywogaethau o gennau a gall cofnodi manwl arwain at rai darganfyddiadau rhyfeddol.


Mae Cymdeithas Cennau Prydain wedi cydnabod ers amser maith bwysigrwydd safleoedd claddu ac mae wedi arolygu mwy nag 8,000 o safleoedd claddu. Mae hefyd yn gwybod pa safleoedd sydd bwysicaf ar gyfer cennau a sut orau i'w gwarchod. Mae llawer o bethau prin wedi'u darganfod sy'n newydd i'r ardal ac, ar sawl achlysur, mae cen y credid ei fod wedi diflannu wedi cael ei ddargafod. Mae gan wefan Cymdeithas Cennau Prydain lawer mwy o wybodaeth drwy'r 'Churchyards Project', gan gynnwys adnoddau y gellir eu lawrlwytho fel poster, taflen ffeithiau, ffurflenni cofnodi a chyngor rheoli.

Efallai mai un o'r pethau gorau am astudio amrywiaeth cennau mewn safleoedd claddu yw'r gallu i'w dyddio. Mae cerrig beddau wedi'u hysgythru'n rhoi dyddiad marwolaeth, gan roi arwydd clir o pryd codwyd y garreg fedd. Mae rhai cennau'n debygol o ddechrau sefydlu ar unwaith felly gall yr enghreifftiau mwyaf o rywogaeth benodol fod mor hen â'r garreg fedd ei hun. Gellir archwilio cerrig beddau gyda sawl dyddiad gwahanol, a mesur y cennau mwyaf. Wrth i faint y cen gynyddu gydag oedran gellir defnyddio'r wybodaeth hon i amcangyfrif oedran gwaith carreg arall heb ddyddiad sydd â'r un cen. Gelwir defnyddio cennau i ganfod oedran strwythurau yn 'genfesureg'.

# Cennau Safleoedd Claddu

## RHEOLI CENNAU

I lawer o bobl, mae cennau'n ddeniadol, gan ychwanegu lliwiau, gweadau a diddordeb naturiol at waith carreg. Mae rhai wedi eu disgrifio fel 'cladin byd natur' neu 'ardd fechan'. Mae eraill, fodd bynnag, yn credu y dylid cadw henebion yn lân ac yn rhydd o gennau, a defnyddir technegau cemegol weithiau i dynnu cennau oddi ar gerrig beddau. Mae'n bwysig bod gwerth mynwentydd i gennau'n cael ei gydnabod a bod dull rheoli gwybodus a chytbwys yn cael ei fabwysiadu, gan sicrhau bod diddordebau bioamrywiaeth a defnyddiau diwylliannol eraill o'r safleoedd hyn yn cael eu hystyried.



*Lobaria pulmonaria - Lungwort*

### Sut i ofalu am eich cennau:

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod cennau yn sensitif iawn i unrhyw newidiadau i'r amgylchedd o'u cwmpas. Felly, ar gyfer cennau yn benodol, argymhellir dull rheoli mwy traddodiadol a dwysedd isel.

- Ar gyfer tynnu llystyfiant, peidiwch â chwistrellu chwynladdwyr o amgylch cofebion gan y bydd hyn yn niweidio cennau ac yn gadael staeniau hyll. Mae'n werth nodi, hyd yn oed os yw'r rhain yn cael eu chwistrellu o bell, gall y cemegau deithio ac effeithio ar y cennau yr un fath.
- Mae cennau yn organebau sy'n mynnu llawer o olau ac os bydd cofebion yn cael eu tagu gan fieri, eiddew neu lystyfiant trwchus arall, gallai'r cennau farw o ddiffyg golau. Felly dylid symud unrhyw lystyfiant sy'n cysgodi mewn ffordd sensitif e.e. torri eiddew yn ei fôn fel ei fod yn marw yn naturiol. Yn yr un modd, peidiwch â gadael toriadau glaswellt i bydru yn pwyso yn erbyn gwaith carreg gan y bydd hyn hefyd yn cysgodi'r cennau.
- Mae'r rhan fwyaf o gennau'n agored iawn i newid. Dylid osgoi tynnu neu ail-leoli cofebion os oes modd, gan fod parhad cynefinoedd a ffactorau amgylcheddol yn allweddol i ddatblygiad cymunedau o gennau. Fodd bynnag, os oes angen symud cerrig beddau, mae cen yn fwy tebygol o oroesi os cedwir cyfeiriadd y garreg yr un fath, felly cadwch yr ochr ddeheuol yn wynebu tua'r de!
- Mae hyn yn wir hefyd am atgyweirio waliau ac adeiladau; ceisiwch ailddefnyddio'r deunyddiau gwreiddiol heb eu glanhau os oes modd, ac yn yr un lleoliad. Os byddwch yn prynu deunyddiau adeiladu newydd, ceisiwch eu paru â'r deunyddiau gwreiddiol a ddefnyddiwyd. Dylid gadael unrhyw gerrig nad ydych eu heisiau sydd â chennau arnynt ar y safle i gynorthwyo gydag ailsefydlu.
- Mae morter calch yn cynnal y nifer a'r amrywiaeth fwyaf o gennau ac os oes angen ailbwyntio hen waliau neu adeiladau, defnyddiwch yr un math o forter ac, os yw'n bosibl, ceisiwch osgoi niweidio'r cennau. Drwy wneud gwaith atgyweirio yma ac acw neu fesul cam byddwch yn helpu cennau i ailsefydlu ar waith carreg newydd.
- Gall cysgod corun coeden sy'n ehangu ladd hen gennau sydd wedi datblygu mewn amodau wedi'u goleuo'n dda, felly argymhellir rheoli'r corun yn ofalus yn aml. Dylech ystyried ble rydych yn plannu coed newydd yn ofalus er mwyn osgoi cysgodi cymunedau o gennau sydd wedi'u sefydlu.
- Nid yw glanhau gwaith carreg yn cael ei argymell yn gyffredinol gan ei fod yn datgelu haenau ffres i hindreuliad; yn wir mae gorchudd da o gennau'n cynnig rhywfaint o warchodaeth i'r garreg. Gall tynnu cennau achosi difrod diangen hefyd. Os oes angen i chi gael gwared ar gennau, dylid gwneud hyn gyda brwsh meddal (neu frwsh dannedd) a dŵr plaen - ond nid yw hyn yn cael ei argymell.

Mae tua 25 o gennau'n cael eu gwarchod yn gyfreithiol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Atodlen 8) ac mae'n anghyfreithlon ymyrryd â hwy heb y caniatâd priodol. Os oes angen gwneud gwaith a fydd yn effeithio ar gennau, gofynnwch am gyngor gan arbenigwr. Bydd Cymdeithas Cennau Prydain yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu. Gellir rhoi cyngor ar sut i wneud gwaith atgyweirio mewn ffordd fel bod cennau'n cael eu diogelu, gan sicrhau cyn lleied o darfu â phosib oherwydd y gwaith.

## Cennau Safleoedd Claddu

### LLEN GWERIN A LLENYDDIAETH AM GENNAU

Mae cennau wedi cael eu defnyddio fel adnodd gan bobl ers canrifoedd lawer. Maent wedi darparu llifynnau, bwyd, affrodisiacs, persawr a meddyginiaethau. Roedd yr hen Eifftiaid yn eu defnyddio i lenwi ceudod corff mymïod hyd yn oed ac, yn fwy diweddar, maent wedi cael eu defnyddio'n helaeth fel dangosyddion llygredd hynod sensitif.

Gellir echdynnu'r pigmentau lliw a gynhyrchir gan gennau i greu ystod o lifynnau. Ceir adroddiadau, sy'n dyddio'n ôl bron i 2,000 o flynyddoedd, am liwiau porffor cennau'n cael eu defnyddio yn Rhufain hynafol i liwio togas. Roedd y llifynnau hyn yn werthfawr iawn hyd at ddiwedd y 19eg ganrif pan ddechreuodd llifynnau synthetig gymryd eu lle. Yn yr Hebrides Allanol mae amryw o gennau'n cael eu defnyddio hyd heddiw i gynhyrchu llifynnau gwlân oren a brown wrth wneud Brethyn Harris. Dywedir mai arogl y cen sy'n rhoi ei arogl unigryw i'r brethyn.

Un o'r llifynnau mwyaf adnabyddus yw 'orcein' neu 'orchil' sy'n cael ei dynnu o grŵp o gennau o'r genws Roccella sy'n cael ei adnabod fel 'chwyn orchella'. Ar Ynysoedd Prydain, credir bod y ddwy rywogaeth yn y genws hwn yn Agos at Fygythiad. Mae nid yn unig yn cynhyrchu ystod o liwiau a ddefnyddir i liwio gwlân a sidan ond hefyd mae'n cael ei ddefnyddio fel staen ar gyfer yr astudiaeth ficrosgopig o feinwe dynol, yn ogystal â mewn papur litmws, a ddefnyddir i fesur pH. Yn y 1970au roedd yn cael ei ddefnyddio fel lliw bwyd, er nad yw wedi'i gymeradwyo bellach i'w fwyta gan bobl.

Defnyddiwyd lliw melyn o'r cen *Candelariella vitellina* i liwio'r canhwyllau a ddefnyddir mewn eglwysi. Gellir gweld y cen bach hwn yn aml mewn safleoedd claddu lle mae'n ffurfio cramen lliw mwstard ar gofebion tywodfaen, lle mae adar wedi clwydo a chyfoethogi'r garreg gyda'u baw.

Yn ystod y canol oesoedd bu meddygon yn ymarfer 'Dysgeidiaeth yr Arwyddnodau'. Roeddent yn credu y gallai planhigion a ffyngau gael eu defnyddio i drin anhwylderau a oedd yn debyg i rannau penodol o'r corff. Defnyddiwyd llawer o gennau i drin cyflyrau ar y croen gan eu bod yn debyg i groen yn codi neu'n pilio, a byddai cleifion â chwynion ar yr ysgyfaint yn cael cymysgedd wedi'i gwneud o lysiau'r ysgyfaint (Lobaria pulmonaria), wedi'u henwi'n briodol am eu bod yn debyg i labedau'r ysgyfaint. Er bod 'Dysgeidiaeth yr Arwyddnodau' yn cael ei hystyried yn 'hurt' bellach, rydym yn gwybod bod llawer o gennau'n cynnwys gwrthfiotigau naturiol a defnyddiwyd darnau o gen barf yr hen ŵr (rhywogaeth Usnea) i drin clwyfau tan ganol yr ugeinfed ganrif.

Er bod cennau heddiw yn parhau i gael eu hymchwilio am eu priodweddau gwrth-diwmor a gwrth-feirol, ychydig o rywogaethau o gennau sy'n cael eu defnyddio'n feddyginiaethol.

Y defnydd o gennau sydd o'r gwerth mwyaf heddiw yw wrth gynhyrchu persawr. Y cennau persawr pwysicaf yw Mwsogl y Dderwen *(Evernia prunastri)* a Mwsogl y Coed *(Pseudevernia furfuracea)*. Mae darnau o gennau'n gweithredu fel sefydlynnau a hefyd yn darparu'r 'sawrau bas' i'r arogl. Mae'r rhain yn anweddu'n araf ac yn rhoi ansawdd sy'n para'n hirach i'r persawr, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr yn y diwydiant. Yn wir, mae pris uchel ambell bersawr yn ymwneud yn uniongyrchol yn aml â faint o ddarnau o gennau sydd ynddo.

Ers Oes Fictoria rydym yn gwybod bod cennau'n ddangosyddion da o ansawdd aer wrth i unrhyw fetelau trwm, carbon, sylffwr neu lygryddion atmosfferig eraill gael eu hamsugno a'u cadw. Oherwydd hyn, ynghyd â hirhoedledd cennau, maent nid yn unig yn darparu gwybodaeth werthfawr i ni am newidiadau mewn lefelau llygredd dros amser, ond hefyd lefelau'r tocsinau sy'n bresennol yn yr amgylchedd o'n cwmpas heddiw.

Defnyddir cennau hefyd fel monitorau biolegol ar gyfer gollyngiadau ymbelydrol gan eu bod yn gallu codi a storio cemegau ymbelydrol, yn enwedig cesiwm a strontiwm. Trychineb Chernobyl ym mis Ebrill 1986 oedd y ddamwain niwclear fwyaf trychinebus mewn hanes. Yn ychwanegol at y dinistr lleol, chwythwyd cymylau ymbelydrol ledled Ewrop ac wedyn golchodd glaw trwm yr elfennau ymbelydrol ar y tir. Yn Lapdir, y cennau amsugnodd yr ymbelydredd a dyma brif ddeiet y ceirw yno. Cafodd y ceirw eu llygru ac roedd ffordd draddodiadol o fyw y bobl Sami dan fygythiad, gan eu bod yn dibynnu ar y ceirw am fwyd a dillad. Ym Mhrydain, ffermydd mynydd Gogledd Cymru oedd un o'r ardaloedd a effeithiwyd waethaf wrth i'r defaid fwyta llystyfiant wedi'i lygru. Rhoddwyd cyfyngiadau ar werthu defaid ac ni chawsant eu codi'n llawn tan 26



*Evernia prunastri - Oak Moss*

mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r defnydd o gennau i fonitro lefelau'r gollyngiadau ymbelydrol yng Ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill ledled Ewrop yn parhau hyd heddiw.

Er gwaethaf eu hymddangosiad anarferol, prin iawn yw'r straeon llên gwerin am gennau. Mae dwy enghraifft yn dod i'r golwg. Rydym yn darllen mai *Lecanora esculenta* yn ôl y sôn oedd y manna a ddisgynnodd o'r awyr yn ystod yr Ecsodus Beiblaidd a bod Indiaid Apache yn defnyddio cennau i baentio croesau ar eu traed, gan gredu y byddai'n eu galluogi i fynd heibio i'w gelynion heb eu gweld.

## ADRODD STORI EICH CENNAU

Gall adrodd stori eich cennau fod ar sawl ffurf a gall fod yn ffordd bwysig o gyfathrebu arwyddocâd eich cennau i'r gymuned ehangach. Yn aml gall hyn ysbrydoli pobl i chwarae mwy o ran ac yn sicr gall helpu gyda gofalu am yr organebau anhygoel yma a'u gwarchod.

Dyma rai canllawiau ymarferol i chi eu hystyried a allai fod o gymorth wrth greu cynllun ar gyfer adrodd stori cennau:

### Wrth bwy ydych chi'n dweud y stori?

Mae'n debyg y bydd eich eglwys a'ch mynwent yng nghalon eich cymuned, a bod pobl yn ymweld â hwy i addoli, dathlu, a mynychu angladdau a gwasanaethau coffa. Defnyddir safleoedd claddu fel llefydd tawel yn aml i gael llonyddwch mewn byd cynyddol brysur; gall pobl leol gerdded yno; gall plant chwarae yno; ac yn aml dyma'r unig fannau gwyrdd lleol sydd ar gael i bobl eu mwynhau heb yrru cerbyd na defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Bellach cydnabyddir bod byd natur a bywyd gwyllt yn chwarae rhan hanfodol mewn iechyd a lles, felly mae pwysigrwydd y gofod gwyrdd hwn yn cael ei ddeall yn well nag o'r blaen efallai.

Gall eich eglwys a'ch mynwent fod yn gyrchfannau pwysig i ymwelwyr hefyd, gan ddenu twristiaid sy'n chwilio am bensaernïaeth unigryw eich eglwys a'ch henebion, neu goed hynafol. Nododd ymchwil a gynhaliwyd gan VisitEngland yn ddiweddar bod 55% o dripiau dydd yn cynnwys ymweliad ag eglwys neu eglwys gadeiriol a bod 83% o bobl y DU yn credu bod eglwysi yn rhan bwysig o dreftadaeth y DU.

Mae cyfle i annog pob un o'r gwahanol grwpiau hyn o ymwelwyr i edrych ar y pethau bach - gan gynnwys y cennau a'r bywyd gwyllt cysylltiedig.

### Pam ydych chi'n adrodd y stori?

Mae cennau'n organebau anhygoel a gallant ein llenwi â rhyfeddod a syndod, yn enwedig wrth edrych arnynt yn fanwl. Fodd bynnag, mae ganddynt gefndir helaeth, un sy'n egluro eu harwyddocâd mewn amser a lle ac yn eu gwreiddio mewn cyd-destun gyda'n bodolaeth ni ein hunain.

Drwy adrodd stori cennau, rydym yn helpu i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Efallai y bydd unrhyw ddehongliad rydych chi'n ei ystyried ynglŷn â chennau eisiau ysbrydoli pobl i'w gweld mewn ffordd wahanol – yn gymaint mwy na dim ond smotyn di-nod ar garreg, ac yn hytrach fel enghraifft odidog o rywogaeth ei hun, rhywbeth eithaf arbennig. Dydych chi byth yn gwybod, efallai mai gwarcheidwad nesaf eich cennau fydd y person gafodd ei ysbrydoli gan eu stori ar ôl darllen yr wybodaeth a luniwyd gennych chi!

### Beth i'w ddweud?

Yn gyffredinol, dylai gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd yn ehangach fod yn fyr ac yn berthnasol, gan ganolbwyntio ar rai themâu allweddol. Cyfeiriwyd eisoes at rai o'r themâu hyn yn y ddogfen hon, fel arwyddocâd hanesyddol, oedran y cennau, llên gwerin a bioamrywiaeth. Dylai'r pedair thema yma fod yn ddigonol i roi dealltwriaeth eithaf da i bobl o ba mor arbennig yw eich cennau mewn cyd-destun lleol ac weithiau mewn cyd-destun cenedlaethol. Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol yn ymwneud â'r cen (yn enwedig llên gwerin), mae bob amser yn werth ei chynnwys, gan y bydd hyn yn helpu i gysylltu'ch cennau â phobl mewn ffordd ychydig yn fwy personol.



## Cennau Safleoedd Claddu

Mae'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn dibynnu ar ble fyddwch chi'n ei ddweud. Er enghraifft, mae gan ein gwefan (www.caringforgodsacre.org.uk) lawer i'w ddweud gan mai ni yw'r elusen genedlaethol ar gyfer safleoedd claddu. Fodd bynnag, byddwch yn sylwi bod gan lawer o'n tudalennau wybodaeth sylfaenol am themâu allweddol ac rydym yn cyfeirio pobl at wahanol adnoddau i gael gwybodaeth fanwl. Mae hyn yn cynnwys pecynnau cymorth, ffilmiau byrion a thaflenni ffeithiau.

Bydd gwahanol grwpiau o bobl eisiau gwahanol lefelau o wybodaeth. Er enghraifft, efallai y bydd myfyriwr yn dymuno gwybod popeth sydd i'w wybod am eich cennau ond efallai dim ond ychydig funudau fydd gan dwristiaid i ddarllen eich gwybodaeth, felly mae'n bosibl y bydd angen cynnwys ffynonellau gwybodaeth pellach.

Yn gyffredinol, 'llai sydd orau', a gwrthsefyll y demtasiwn i gynnwys popeth rydych chi'n ei wybod!

### Ble i'w ddweud?

Mae byrddau gwybodaeth yn ffordd wych o ymgysylltu â'r cyhoedd, ond mae llawer o syniadau eraill y gellir eu defnyddio i godi proffil cennau. Ydych chi wedi ystyried y canlynol?

- Beth am daflen? Gellir ei rhoi yn eich eglwys neu'ch capel, mewn teclyn dosbarthu taflenni arbennig ar hysbysfwrdd eich mynwent neu yn y porth. Mae modd dosbarthu taflenni yn lleol a gellir eu hanfon i atyniadau ymwelwyr eraill sy'n gysylltiedig â threftadaeth. Gallant hefyd fynd ar wefannau, ar gael i'w lawrlwytho, a gellir eu diweddaru a'u hatgynhyrchu'n rhad ac yn gyflym, yn enwedig os gellir argraffu eich taflen gartref ar gyfrifiadur.
- Mae posteri'n ffordd dda o gyfleu gwybodaeth. Eto, gellir arddangos posteri yn eich eglwys ac ar eich hysbysfyrddau. Fel taflenni, mae'n hawdd diweddaru posteri a'u hanfon yn electronig at eraill i'w rhannu.
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter ac ati) yn ffordd gyflym, am ddim, o gyrraedd pobl ledled y byd yn ogystal ag yn eich cymuned leol. Gellir diweddaru negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yn hawdd yn rheolaidd a gallwch gysylltu ag ymgyrchoedd cenedlaethol i helpu i gyfleu'ch neges. Efallai eich bod yn teimlo nad oes gennych y sgiliau neu'r wybodaeth i ddatblygu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol - os felly, lledaenwch y gair drwy'ch cynulleidfa ac efallai y bydd rhywun yn cynnig eich helpu chi. Mae'n bwysig nodi, os byddwch yn creu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol, ei fod fwyaf effeithiol pan fydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb, felly mae angen ymrwymiad parhaus ar gyfer hyn.
- Os ydych chi'n teimlo'n arbennig o fedrus o ran delio â'r cyfryngau, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r BBC neu orsaf radio leol annibynnol a allai ddod i greu pecyn byr i'w ddarlledu ar fioamrywiaeth eich mynwent gan gynnwys, wrth gwrs, eich cennau!
- Gallech ymuno â safleoedd eraill yn eich ardal leol i greu 'llwybr cennau' a allai gysylltu pedair neu bum eglwys leol sydd â chennau. Wedi'i farcio ar fap, gallai hwn fod yn llwybr da i bobl ei gerdded neu ei feicio, a gallech eu hannog i weld pa gennau sy'n gyffredin yn y safleoedd a pha gennau sy'n brinnach, neu'n benodol i un safle arbennig. Efallai y byddai'n syniad da cynnwys nodweddion eraill hefyd, efallai na fydd cennau ar eu pen eu hunain yn ddigon i ddenu pawb, ar wahân i'r rhai mwyaf brwd.

### Sut i'w dweud?

Mae llawer o wahanol ffyrdd o adrodd stori cennau – dyma rai syniadau:

- Ystyriwch ddefnyddio lluniau, darluniau neu ddelweddau. Mae gennym rai lluniau rhagorol y gallwch eu lawrlwytho o'n tudalen adnoddau.
- Dylai testun barhau i fod y prif ddull o gyfleu gwybodaeth ond ei gadw'n syml ac yn gryno.
- Cadwch eich gwybodaeth yn gymharol sylfaenol ond cynnwys ffyrdd i bobl ddod o hyd i wybodaeth bellach, fel dolenni i'ch safleoedd ar gyfryngau cymdeithasol, codau QR* neu drwy gynnwys dolenni at sefydliadau cenedlaethol.
- Os oes gennych chi neu unrhyw un o'ch cynulleidfa (gan gynnwys pobl ifanc?) sgiliau i gynhyrchu a golygu ffilm fer, gall hyn fod yn ffordd braf iawn o gyfleu gwybodaeth - a gellir ei rhoi ar eich gwefan hefyd neu ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Fel yr elfen bwysicaf efallai, dywedwch wrth bobl amdanynt wyneb yn wyneb. Os byddwch yn cwrdd ag ymwelwyr, ydych chi'n tynnu eu sylw at y cennau? A allai rywun arwain taith gerdded o amgylch y fynwent yn edrych ar gennau a bywyd gwyllt arall? Yn aml iawn, dyma'r digwyddiadau a'r negeseuon ydym yn eu cofio fwyaf.

*Cod i'w ddarllen gan beiriant yw hwn sy'n cynnwys casgliad o sgwariau du a gwyn, a ddefnyddir yn nodweddiadol ar gyfer storio URLs neu wybodaeth arall i'w darllen gan y camera ar ffôn clyfar

### Bod yn greadigol gyda'ch cen

Mae eich cen yn ffordd wych o gynnwys pobl yn eich safle claddu. Er enghraifft, mae cennau'n addas iawn i fod yn ganolbwynt y sylw ar ddyddiau darganfod bioamrywiaeth. Gallai'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn fod yn agored i bob oedran a gallu a gallent gynnwys y canlynol:

- Lansio cystadleuaeth ffotograffiaeth sy'n canolbwyntio ar y pethau bach, a chen yn benodol. Mae cystadleuaeth yn cymryd peth amser i'w threfnu

gan ei bod yn cynnwys beirniaid ac efallai gwobrau, ond bydd yn boblogaidd, a gallai arwain at sioe sleidiau o'r holl luniau a gyflwynwyd, i fynd ar eich gwefan neu ar gyfryngau cymdeithasol. Gallai hyn arwain at rai lluniau diddorol a allai gynnwys; lluniau macro (y pethau bach iawn); y gymuned o gennau; eich cen ar garreg; y bywyd gwyllt o amgylch y cen; a'ch cen drwy'r tymhorau.

- Cysylltwch â'ch ysgol leol i weld a hoffent ddod draw a rhoi sylw i'ch cennau fel pwnc. Gellid rhoi sylw i lawer o feysydd y cwricwlwm a gallai unrhyw waith a wneir gan y disgyblion gael ei arddangos yn yr eglwys.
- Cynnal sesiwn Adrodd Stori sy'n cynnwys stori am gennau. Mae adrodd straeon yn weithgaredd poblogaidd a chreadigol ac mae'n debygol y bydd storïwr lleol y gallwch ofyn iddo ef neu hi gynnal y sesiwn.
- Cynnal taith gerdded dywys gan roi sylw i'ch cennau.
- Cynnal gweithgaredd teuluol yn archwilio byd natur, gan ddefnyddio eich cen fel man cychwyn. Cynhwyswch bethau fel dyfalu oedran y cen, edrych ar wahanol gennau gyda chwyddwydr, cennau drwy'r oesoedd, adnabod cennau sylfaenol, tynnu llun a phaentio delweddau o'r cen a threfnu helfa cennau yn eich mynwent.

Gellir trefnu rhai o'r gweithgareddau hyn fel digwyddiadau 'annibynnol', ond fe allech chi hefyd ystyried eu cydblethu ag ymgyrchoedd a mentrau cenedlaethol fel y canlynol:

- Wythnos Caru Eich Safle Claddu www.caringforgodsacre.org.uk/get-involved/love-your-burial-ground-week/ (June)
- Diwrnod Amgylchedd y Byd www.un.org/en/observances/environment-day, (Mehefin)
- Diwrnod y Ddaear www.earthday.org/ (Ebrill)
- Sul Hinsawdd yr Eglwys Eco www.ecochurch.arocha.org.uk/climate-sunday/

### Adnoddau

Mae gan Gofalu am Erw Duw rai adnoddau gwych ar gyfer gweithgareddau i deuluoedd ac ysgolion, i gyd yn adran Adnoddau ein gwefan (www.caringforgodsacre.org.uk/resources/). Mae llawer o'r adnoddau hyn yn berthnasol i Gennau ac yn cynnwys dolenni i gwricwla cenedlaethol Cymraeg a Saesneg. Gellir dod o hyd i adnoddau eraill gan Gymdeithas Cennau Prydain (www.britishlichensociety.org.uk/) a Choed Cadw (www.woodlandtrust.org.uk/trees-woods-and-wildlife/fungi-and-lichens/).

### Ac yn olaf

Mae cennau mewn mynwentydd angen help. Mae Gofalu am Erw Duw yn elusen i aelodau ac rydym yn dibynnu ar roddion i wneud gwahaniaeth. Plîs ystyriwch ddod yn aelod - mae mwy o wybodaeth am ddod yn aelod ar gael ar ein gwefan ni www.caringforgodsacre.org.uk

THE PRINCE OF WALES'S
CHARITABLE FUND